Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Cynhyrchion Organig (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018** |
| **DYDDIAD** | **23 Tachwedd 2018** |
| **GAN** | **Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip** |

**Rheoliadau Cynhyrchion Organig (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018**

**Y gyfraith sy'n cael ei diwygio**
Y ddeddfwriaeth a gaiff ei diwygio gan y rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynhyrchion Organig 2009.

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**
Mae'r offeryn statudol hwn yn cynnwys darpariaethau mewn meysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli.

**Diben y diwygiadau**
Mae Rheoliadau Cynhyrchion Organig (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018 yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth, sy'n rhoi pwerau i weinyddu a gorfodi deddfwriaeth yr UE a ddargedwir mewn perthynas â rheolau labelu a chynhyrchu organig, a hynny er mwyn ei bod yn parhau'n weithredol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gydag ef, ac sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma: https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-organic-products-amendment-eu-exit-regulations-2018

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**
Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran ac ar ran Cymru, am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt ym mis Mai gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd.